

## CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWWE

### (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mawrth, 13 Chwefror 2024

**Cadeirydd:** Cynghorydd T.Bowen

**Is-gadeirydd:**

**Cynghorwyr:** J.Beynon, G.Morgan, R.Sparks, J.Curtice,  
A.Dacey a/ac M.Harvey

**Swyddogion sy'n  
Bresennol:** C.Moore, Burnes, L.Willis, N.Pearce a/ac  
T.Rees

---

#### 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y Gwasanaethau Democrataidd wedi derbyn ymddiheuriadau gan y Cyng. C Holley, y Cyng. V Holland, a'r Cyng. S Yelland.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am drefnu ymweliad safle ar 26 Ionawr 2024 i Brosiect Morol Doc Penfro a dywedodd fod yr aelodau yn teimlo ei fod yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol wrth ddeall maint a chynnydd y prosiect. Hefyd, rhoddwyd gwybod i aelodau am ddau ddigwyddiad 'Cwrdd â'r Fargen Ddinesig' sydd ar ddod yn Abertawe ar 20 Mawrth ac yng Nghastell-nedd Port Talbot ar 9 Ebrill.

#### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd y Cyng. Mike Harvey fod ganddo gysylltiad ag Eitem 8 gan ei fod yn rhoi cyngor ar y prosiect hwn fel rhan o'i rôl fel swyddog dileu troseddau drwy ddylunio gyda Heddlu De Cymru.

#### 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 04.07.23 a 24.10.23 fel cofnod cywir.

4. **ADRODDIAD ARCHWILIO CYFRIFON**

Ni chraffwyd ar yr eitem hon.

5. **DATGANIAD O GYFRIFON Y CYDBWYLLGOR**

Cyflwynodd Chris Moore Swyddog Adran 151 yr adroddiad fel y'i cynhwysir yn y pecyn agenda.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch cyfanswm y pecyn buddsoddi gan nodi mai £235 miliwn yw buddsoddiad cyllid y DU ac roeddent am wybod faint sydd wedi'i ddefnyddio hyd yn hyn ar gyfer Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe a'r hyn a oedd i ddod o hyd.

Dywedodd swyddogion eu bod wedi derbyn cyllid dros 6 blynedd, sef £23 miliwn y flwyddyn (cyfanswm o £138 miliwn hyd yn hyn). Mae'r cyllid dros gyfnod o 15 mlynedd a'r mecanwaith y cytunwyd arno'n wreiddiol oedd y byddai £241 miliwn yn cael ei gyflwyno ar draws y rhanbarth. Mae'r adroddiad yn nodi £235 miliwn ar hyn o bryd gan fod un prosiect ychydig yn is ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ond bydd hynny wedi dychwelyd i ddisgwyliad o £241 miliwn erbyn hyn.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau mai'r rhwymedigaeth i bob awdurdod cyfansoddol neu awdurdod sy'n arwain y prosiect fyddai talu arian ar gyfer y prosiect ymlaen llaw oherwydd gellid rhyddhau'r proffil dros gyfnod o 15 mlynedd yn unig. Dywedodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau talu ychydig mwy cyn y proffil 15 mlynedd ac mae Llywodraeth y DU wedi edrych ar ailbroffilio eu cyllid ac maent wedi cyflwyno proffil lle gellir defnyddio rhywfaint o'r arian yn gyflymach ac mae'n golygu ei fod yn fantais oherwydd byddai angen i awdurdodau lleol fenthycu llai.

Nodwyd yr adroddiad.

6. **DIWEDDARIAD AR GYC AR GYFER MONITRO A GWERTHUSO PORTFFOLIO**

Cyflwynodd Ian Williams, Rheolwr Datblygu Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe yr adroddiad fel y'i cynhwysir yn y pecyn agenda.

Eglurodd yr Aelodau fod y talfyriad SMART yn golygu Penodol, Mesuradwy, Realistig, Cyraeddadwy, o fewn Amserlen y prosiect

(Specific, Mesurable, Realistic, Achievable, Time based). Mae swyddogion wedi cadarnhau hyn. Cydnabu'r Aelodau fod Gwerth Ychwanegol Gros yn amorffaidd ac roedd yn anodd ei fesur a ddeall o ble roedd y penderfyniad wedi dod.

Dywedodd yr aelodau eu bod yn siomedig pan ddechreuodd y prosiect roedd ffigurau'n cael eu defnyddio a nawr nad oedd modd eu meintoli. Roedd yr aelodau am gael cadarnhad ynghylch ble y byddai'r gwerth ychwanegol gros yn cael ei ddefnyddio gan eu bod yn nodi y gellir ei ddefnyddio ar lefel achos busnes ond nad oes modd ei ddefnyddio mewn meysydd eraill.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd pa farcwyr eraill a ddefnyddir i roi dealltwriaeth gyffredinol o sut y mae'r prosiect cyfan yn ei wneud yn hytrach na phrosiectau unigol gan na oes modd craffu ar brosiectau unigol oni bai bod aelodau'n gofyn yn benodol, neu os oes ganddynt gyflwyniad arnynt.

Dywedodd yr aelodau mai rôl craffu yw deall y gwerth i ardal gyfan Abertawe ond eu bod yn teimlo bod y pyst gôl wedi symud.

Esboniodd swyddogion y bydd gwerth ychwanegol gros fel cyfrifiad yn parhau i gael ei ddefnyddio yn yr achosion busnes ond yr hyn y mae'r cyfrifiad yn ei wneud yn yr arfarniad economaidd yw ei fod yn ei seiliedig ar ragdybiaethau a lluosyddion, mae hyn yn golygu na all swyddogion dystiolaethu a phriodoli ymyrraeth rhaglen a phrosiect i werth ychwanegol gros. Esboniodd swyddogion y gallant siarad am effaith economaidd adeilad a defnyddiwyd Arena Abertawe fel enghraifft ac eglurwyd y gallant siarad am effaith economaidd canlyniad uniongyrchol bodolaeth yr arena, gan gynnwys ei effaith economaidd, gwerthu tocynnau, nifer yr ymwelwyr, cefnogaeth i'r holl fusnesau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r arena ac o amgylch yr arena. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai swyddogion wedyn yn defnyddio model gwerthuso i edrych ar unrhyw dystiolaeth arall ac effaith ehangach canol y ddinas a'r ardaloedd cyfagos, ar gyfer unrhyw effaith economaidd. Fodd bynnag, esboniodd swyddogion na fyddai gwerth ychwanegol gros yn cael ei ddefnyddio o reidrwydd.

Rhoddwyd enghraifft i'r Aelodau hefyd o'r Egin lle mae asesiadau economaidd ynghylch cam un ac mae dangosyddion effaith economaidd o fewn yr adroddiad hwnnw. Esboniodd swyddogion y bydd cael S4C fel tenant angor o fewn Yr Egin gyda'r holl gadwyni cyflenwi gyfagos a'r holl gwmnïau sy'n ymwneud â'r adeilad ei hun yn gweld effaith economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gadwyni cyflenwi a'r ardal gyfagos.

Esboniodd swyddogion y bydd yr holl arfarniadau economaidd yn digwydd unwaith y bydd pethau ar waith, ond byddant hefyd yn arfarnu effaith economaidd y gwaith adeiladu. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod tua 120 o wahanol fesuriadau o ddangosyddion llwyddiant y mae pob achos busnes wedi'u nodi.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y rheini'n ddangosyddion economaidd y maent eisoes yn eu defnyddio ac, er efallai na fydd ar lefel portffolio yn unig ar gyfer pob un ohonynt, oherwydd natur yr hyn y gallai'r prosiect neu'r adeilad ei olygu, rhoddodd swyddogion sicrwydd eu bod yn mesur yr effaith economaidd. Nid yw'n priodoli gwerth ychwanegol gros i'r portffolio.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith ar wefan y Fargen Ddinesig caiff ffigurau o £1.8 biliwn eu crybwyll a dyna beth fyddai swyddogion yn ystyried o ran gwerth ychwanegol gros ac wedi hynny, cafodd ei godi i £2.3 biliwn. Nid oedd yr aelodau'n hapus bod yr wybodaeth hon yn cael ei gyflwyno o hyd, ond ni all swyddogion ei gwirio.

Dywedodd swyddogion na allant ddangos tystiolaeth yn uniongyrchol, ond maent yn amcangyfrif y ffigur hwnnw o hyd a phryd mae achosion busnes yn esblygu, ac os bydd cynllun yn gwneud unrhyw newidiad arwyddocaol, byddai angen ail-wneud y gwerthusiad economaidd ond nid yw swyddogion wedi gwneud un hyd yn hyn oherwydd roedd popeth yr oeddent yn bwriadu ei wneud yn dilyn yr un cyfeiriad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai'r unig brosiect sy'n wahanol yw ffermydd gwynt arnofiol ar y môr, ond mae arfarniad economaidd yn cael ei wneud ar yr elfen newydd honno o'r prosiect o fewn y rhaglen a bydd swyddogion yn parhau i'w werthuso a dyma'r targed o hyd, oherwydd gan na all swyddogion ddangos tystiolaeth sy'n uniongyrchol i'r portffolio. Bydd swyddogion yn parhau i fonitro gwerth ychwanegol gros, ond mae cynifer o rannau symudol gallent ganfod y gallai gwerth ychwanegol gros leihau ar gyfer y rhanbarth oherwydd nid y portffolio yn unig sydd ar waith ar gyfer y rhanbarth o ran gweithgarwch economaidd. Dywedodd swyddogion y byddai'r portffolio yn creu effaith economaidd a byddant yn arddangos hynny trwy ddangosyddion eraill.

Cydnabu'r Aelodau yr anawsterau a nodwyd gan fwrdd rheoli'r prosiect ynghylch y ffaith bod gwerth ychwanegol gros yn amorffaidd ac yn anodd ei feintioli ond tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith eu bod yn defnyddio'r niferoedd hynny i hyrwyddo gweithgarwch y fargen

ddinesig er i swyddogion ddweud ei bod yn anodd gwneud hynny oherwydd ffactorau eraill a gofynnwyd i'r pwyllgor dynnu sylw bwrdd y Fargen Ddinesig at hyn fel testun pryder. Dywedodd yr Aelodau hefyd bod y gwaith craffu ar yr eitem hon wedi'i ddileu gyda chaniatâd, ond mae ffigurau gwerth ychwanegol gros yn cael eu defnyddio i'w hyrwyddo o hyd.

Cadarnhaodd y cadeirydd yr hoffai ysgrifennu at Gadeirydd Cyswllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe i dynnu sylw at yr anghysondeb hwn.

Mynegodd yr Aelodau hefyd y farn, os yw economegwyr yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi edrych ar werth ychwanegol gros ac yn argymhell ei fod yn offeryn mesur diffygiol ac y dylent ddefnyddio dulliau eraill, yna dylai'r pwyllgor wrando ar hynny.

Cadarnhaodd swyddogion fod LIC ac Economegydd Llywodraeth y DU wedi cadarnhau'r cyngor hwnnw. Dywedodd swyddogion y gall gwerth ychwanegol gros aros fel prif ffigwr wrth fodelu termau yn yr arfarniadau economaidd, ond ar eu cyngor nhw nid yw'n bosibl rhoi tystiolaeth i fonitro ar y lefel honno.

Yn dilyn craffu ar yr eitem, penderfynodd y Cadeirydd ysgrifennu at Fwrdd Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i dynnu sylw at yr anghysondeb o ran y ffaith bod craffu ar hyn wedi'i ddileu (gyda chaniatâd), ond mae ffigurau gwerth ychwanegol gros yn cael eu defnyddio o hyd i hyrwyddo gweithgarwch y Fargen Ddinesig. Nodwyd yr adroddiad.

7. **RHAGLEN CEFNOGI ARLOESED A THWF CARBON ISEL - CAIS AM NEWID I YMGORFFORI'R GANOLFAN RHAGORIAETH GENEDLAETHOL SGILIAU SERO NET (NAWR WEDI'I GYMERADWYO GAN Y LLYWODRAETH**

Rhoddodd Nicola Pearce Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gyflwyniad i'r aelodau ar y Rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel gan gynnwys y cais i ymgorffori'r Ganolfan Rhagoriaeth Sgiliau Sero Net Genedlaethol yn unol â'r adroddiad a gynhwysir yn y pecyn agenda. Holodd yr aelodau am y rhaglen ysgogi hydrogen a pha gyfran o'r prosiect cyfan sy'n seiliedig ar hynny. Nododd yr Aelodau bod marchnad ar gyfer cerbydau mawr sy'n defnyddio hydrogen yn unig gan fod 300 o geir hydrogen yn unig yn y DU.

Gofynnodd yr Aelodau pam fod arian y Fargen Ddinesig yn cael ei fuddsoddi mewn hydrogen pan nad yw'n gweithio fel dewis amgen heblaw ar gyfer cerbydau mawr â chymhorthdal mawr.

Gofynnodd yr aelodau hefyd a yw swyddogion yn annog partneriaid i edrych ar dariffau dros nos ar gyfer ynni wrth wefru cerbydau trydan yn ogystal â'r isadeiledd oherwydd yr arbedion sylweddol y gall sefydliadau eu gwneud os oes ganddynt dariff dros nos.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch yr hyn a olygwyd gan y term 'adeilad hybrid' fel y cyfeirir ato yn y cyflwyniad.

Dyweddodd swyddogion fod y Prosiect Ysgogi Hydrogen a Chanolfan Dechnoleg y Bae yn rhan o'r 7 prosiect gwreiddiol a gafodd eu cymeradwyo. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod cyfleuster Canolfan Dechnoleg y Bae wedi'i adeiladu ac ar hyn o bryd mae'n weithredol ac yn adeilad ynni-gadarnhaol, sy'n golygu ei fod yn cynhyrchu mwy o ynni na'r hyn y mae ei angen arno er mwyn gweithredu. Dywedodd swyddogion fod dros 50% o'r adeilad wedi'i osod.

Esboniodd swyddogion fod y prosiect yn cysylltu'r ynni dros ben â'r cyfleuster ymchwil hydrogen sydd o fewn 100 metr o'r cyfleuster. Mae'r trydan sbâr hwn yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu hydrogen. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y prosiect yn talu am electrolyswr ychwanegol o fewn y cyfleuster ymchwil hydrogen a weithredir gan Brifysgol De Cymru i alluogi'r cynhyrchiad cynyddol o hydrogen. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y rhagwelwyd erioed y byddai hydrogen yn cael ei ddefnyddio o fewn cerbydlu cludo nwyddau mawr Castell-nedd Port Talbot ac maent yn rhagweld bod hydrogen yn cael ei ystyried ar gyfer dyfodol cerbydau mwy fel cerbydau cludo gwastraff ac ailgylchu ac mae darpariaeth o fewn y prosiect ysgogi hydrogen hwnnw i dalu tuag at gost un cerbyd, er mwyn dangos effeithiolrwydd y cydleoiliad hwnnw o gerbydlu Castell-nedd Port Talbot (CNPT) gyda'r prosiect ysgogi hydrogen.

Mewn perthynas â gwefru cerbydau trydan, eglurodd swyddogion fod cerbydau trydan yn gysylltiedig â'r ceir cronfa llai y bydd CNPT fel awdurdod a cherbydau domestig y cyhoedd yn defnyddio mwy ohonynt wrth symud ymlaen. Mae CNPT yn buddsoddi arian ar draws y rhanbarth mewn isadeiledd a chyfleusterau gwefru. Mae'r farchnad hefyd yn darparu cyfleusterau gwefru lle mae'n gwneud synnwyr busnes da.

Mae swyddogion yn cyflwyno prosiect o dan Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel o'r enw 'Map Llwybr Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan', a fydd yn sefydlu lleoliad y mannau heb gyfleuster gwefru mewn ardaloedd mawr yn y rhanbarth, lle na fydd y farchnad yn ymyrryd i osod isadeiledd gan na fyddant yn cael elw ar eu buddsoddiad.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod nifer sylweddol o'r boblogaeth yn gofyn am fynediad i'r isadeiledd gwefru hwnnw ac mae gan lawer o'r ardaloedd hyn ddatblygiadau preswyl dwys iawn heb gyfleusterau parcio oddi ar y stryd. Esboniodd swyddogion eu bod yn edrych ar ffyrdd y gallant gefnogi pobl sy'n byw yn y cymunedau hynny sy'n dyheu am berchen ar gerbyd trydan.

Eglurodd swyddogion, mewn perthynas â llety hybrid, mae swyddogion am ddatblygu integreiddiad yr Academi Sgiliau Sero Net yn y cyfleuster gweithgynhyrchu uwch ac y byddant yn cael eu cydleoli o fewn un adeilad. Mae hyn yn golygu bod gan y myfyrwyr yn yr academi fynediad at yr offer uwch-dechnoleg uchel wedi'u lleoli yn y cyfleuster gweithgynhyrchu uwch. Bydd hyn yn caniatáu i fyfyrwyr weithio ar yr offer y maent yn debygol o gael mynediad ato wrth fynd ar drywydd y mathau hynny o gyfleoedd gyrfa. Ni fyddai myfyrwyr yn eistedd mewn ystafell ddosbarth yn unig a byddant yn treulio amser mewn amgylchedd gweithgynhyrchu hefyd. Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd myfyrwyr yn derbyn y profiad ymarferol gorau sy'n cyd-fynd â gweithio ym maes gweithgynhyrchu y gall swyddogion ddatblygu ar eu cyfer. Dyna beth a olygir gan gyfleuster hybrid. Nododd yr Aelodau eu bod wedi nodi y dylai'r adeilad gael ei orffen erbyn 2027 ac maent yn gobeithio nad yw'r raddfa amser yn rhy dynn i fod yn ymarferol gan fod busnesau lleol yn pryderu y byddant yn colli'r arian neu'r enillion posib trwy ffermydd gwynt arnofiol ar y môr os na fyddwn yn gweithredu'n gyflym. Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch yr angen i hyfforddi pobl a'u dechrau yn y diwydiant yn hytrach na dod â phobl i'r ardal i weithio ac yna maent yn symud allan o'r ardal. Tynnodd yr aelodau sylw at yr angen i ddisodli'r swyddi pwysig a fydd yn cael eu colli o ganlyniad i gyhoeddiad TATA.

Cytunodd swyddogion ei bod yn amserlen dynn iawn ac, er ei bod yn uchelgeisiol, maen nhw'n credu y gallant ei chyflawni. Esboniodd swyddogion eu bod wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru am gyfnod sylweddol i ddefnyddio rhan o'r Parc Ynni y maent wedi'i brynu'n ddiweddar ac mae rhannau o'r parc ynni sy'n parhau i fod yn destun halogiad sy'n gysylltiedig â chemegau BP a oedd yn bresennol ar y safle yn y gorffennol. Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau

fod rhannau o'r safle, lle mae gan swyddogion ddiddordeb, gellid eu datblygu yn y tymor byr ac maent yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau'r tir hwnnw ac maent yn gefnogol o'r prosiect hwn mewn egwyddor ac maent am iddo ddigwydd.

Nododd swyddogion ei fod yn bwysig, o ystyried sefyllfa TATA, eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi'r gweithlu sydd mewn perygl o golli eu swyddi yn ogystal â sicrhau bod gan weithlu'r dyfodol a oedd yn arfer dyheu am weithio yn TATA gyfleoedd economaidd amgen a chyfleoedd gwaith amgen. Byddai angen iddynt gael y sgiliau i gael mynediad at y swyddi hynny wrth symud ymlaen ac mae swyddogion am ddarparu'r sgiliau hynny iddynt. Nodwyd yr adroddiad.

## 8. **MATRICES ARLOESIEDD A DIWEDDARIAD O'R GANOLFAN**

Cyflwynodd Ian Walsh (Uwch-swyddog Cyfrifol Matrics Arloesedd) a Geraint Flowers (Arweinydd Prosiect Matrics Arloesedd) y diweddaraf i'r aelodau ar gynnydd y Prosiect Matrics Arloesedd a chanlyniadau'r Adolygiad Gateway allanol diweddar.

Dywedodd yr Aelodau eu bod yn credu bod y prosiect cyfan yn edrych yn dda a gallent weld ei fod yn gynhwysfawr. Croesawodd yr aelodau y ffaith bod cynifer o bartneriaid wedi cofrestru cyn iddo fod yn barod. Llongyfarchodd yr Aelodau swyddogion ar yr holl waith caled dan sylw ac maent yn edrych ymlaen at glywed y diweddaraf am Yr Egin - Rhan 2 ym mis Mawrth.

Nodwyd yr adroddiad.

## 9. **BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWA ADRODDIAD CHWARTEROL CH3 2023/24**

Rhoddodd Jonathan Burns, Cyfarwyddwr Borgen Ddinesig Bae Abertawe grynodedb o Adroddiadau Monitro Chwarterol Borgen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer Chwarter 3, gan gynnwys dangosfyrddau, crynodeb o'r risgiau a'r materion a'r buddion, caffael, hysbysiadau newid piblinellau ac archwiliadau adolygiad Sicrwydd 'Gateway' a'r cynllun gweithredu archwilio mewnol.

Nododd yr Aelodau mewn cyfarfodydd blaenorol fod adolygiad annibynnol wedi'i grybwyll a thrafodwyd yn ystod y cyfarfod heddiw na fydd angen gwerth ychwanegol gros fel ystadegyn cyffredinol a gofynnwyd a fydd adolygiad annibynnol yn mynd rhagddo a pha fath o bethau fydd yn cael eu



hystyried o ran adolygu a yw Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn llwyddiannus yn gyffredinol.

Dyweddodd swyddogion y bydd adolygiadau a bydd gwerthusiadau ar draws y portffolio ar lefel rhaglen y prosiect ac ar lefel portffolio. Y bwriad oedd y byddai hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod, ond mae angen i adeiladau fod yn gweithredu am o leiaf 24 mis, os nad 2 flynedd yn dibynnu ar beth yw'r adeiladau er mwyn eu gwerthuso'n iawn. Ni all swyddogion ateb a fydd y cyfan yn digwydd ar ddyddiad penodol neu flwyddyn benodol.

Esboniodd swyddogion fod Ian Williams yn cydlynu gyda'r holl brosiectau o ran yr hyn a fydd yn cael ei werthuso, pryd y bydd yn cael ei werthuso a sut y bydd yn cael ei werthuso. Bydd y tri chwestiwn hynny'n cael eu hateb yn y fframwaith gwerthuso y mae swyddogion yn ei ddatblygu. Nid yw swyddogion wedi cytuno â'r cyd-bwyllgor eto y byddant yn cynnal gwerthusiad portffolio yn ystod flwyddyn ariannol nesaf na'r flwyddyn ganlynol. Ond wrth i brosiectau fynd rhagddynt, bydd Swyddogion yn gwerthuso ar lefel y prosiect a gallant rhannu hynny gyda'r Cydbwyllgor ac ar lefel y Pwyllgor Craffu i edrych ar yr hyn sy'n cael ei werthuso'n fwy lleol, gyda phrosiectau unigol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai angen gwneud y rhain ar adeg briodol, fel arall byddai swyddogion yn cynnal gwerthusiadau ac yn talu gormod o arian am farn allanol ar hyn. Rhoddodd swyddogion sicrwydd eu bod yn monitro'n fewnol a'u bod yn gwybod bod nifer y swyddi'n uwch na'r nifer presennol, ond rhaid adrodd yn ffurfiol amdanynt.

Rhoddodd swyddogion yr enghraifft bod Arena Abertawe wedi bod ar waith ers dwy flynedd ac nad yw swyddogion wedi cyflwyno rolau gweithredol o ran yr hyn sydd gan yr arena yn y niferoedd hynny. Efallai y bydd Cyngor Abertawe am edrych ar werthusiad ehangach, nid y swyddi uniongyrchol yn unig oherwydd mae'r arena yno. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r holl bartneriaid i nodi'r rheini, ac maent yn gobeithio cyflwyno crynodeb drwy lywodraethu'r 120 o ddangosyddion gwahanol ar lefel portffolio yn ogystal â'r prosiectau a'r rhaglenni ar lefelau is.

Nodwyd yr adroddiad.

## 10. **MONITRO ARIANNOL CH3 2023/24**

Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiynau am yr adroddiad.

Nodwyd yr adroddiad.

11. **ASESIAD LLEIHOU CARBON O ADDRODDIAD PORTFFOLIO SBCD**

Rhoddodd Peter Austin, Rheolwr Ymgysylltu â Busnes, wybod i'r aelodau fod yr Adroddiad Asesu Lleihau Carbon Portffolio Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn ddarn o waith a wnaeth swyddogion yn ôl yn 2022 ar gais bwrdd y rhaglen ac roedd yn ymarfer ar adeg benodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod cyflwyniad Nicola Pearce yn gynharach yn y cyfarfod yn dangos yma yn 2024 mae'r prosiectau'n addasu i'r galw a'r angen am gamau gweithredu carbon net.

Nodwyd yr adroddiad.

12. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Nododd aelodau'r pwyllgor y Flaenraglen Waith.

13. **EITEMAU BRYD**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

TRAILER\_SECTION>

**CADEIRYDD**